| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Pwyllgor Pensiynau** |
| Dyddiad: | **17/01/2021** |
| Teitl: | **Staffio Uned Gweinyddu Pensiynau** |
| Awdur: | **Meirion Jones – Rheolwr Pensiynau** |
| Argymhelliad: | **Cymeradwyo adnoddau ychwanegol i alluogi'r Adran Gyllid i sefydlu strwythur staff mwy gwydn ar gyfer yr Uned Bensiynau** |

## Cefndir

1. Fel nodwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Pensiynau, oherwydd cymhlethdod cynyddol gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae pwysau cynyddol ar yr adnoddau staffio. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Pensiynau i gael adnoddau ychwanegol i alluogi'r Uned Weinyddu Pensiynau i ymdopi'n effeithlon â lefel y gwaith sydd ei angen yn awr.

2. Mae pwysau gwaith wedi cynyddu'n barhaus, oherwydd –

    - cymhlethdod cynyddol i'r cynllun ers cyflwyno'r cynllun Cyfartaledd Gyrfa o 1/4/2014,
    - y pwysau cynyddol gan amryw adrannau ac asiantaethau o Lywodraeth y DU, megis DLUHC, y Rheoleiddiwr Pensiynau, ac Adran Actiwari'r Llywodraeth, ynghyd â'r LGA, ac ymgynghorwyr actiwaraidd, sydd oll angen data cywir a chyflawn,
    - yr her o gael data cywir ac amserol gan y cyflogwyr,
    - prosiect McCloud (sy'n hysbys ers tro, ond rŵan angen sylw penodol), a
    - problemau hyfforddi staff o bell, yng nghyd-destun cyfyngiadau parhaus yr argyfwng Covid.

3. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau yw pennu'r gyllideb a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Pensiwn a rheoli'r Gronfa Bensiwn. Er mwyn gwella effeithlonrwydd yr Uned Gweinyddu Pensiynau, cynigir yr adolygiad canlynol i strwythur staff yr Uned.

### Swyddogaethau'r Cymhorthyddion Pensiynau

4. Mae gwaith y Cynorthwywyr Pensiynau wedi newid yn sylweddol ers i'r cynllun newid yn 2014. Mae nifer o'r dyletswyddau syml, e.e. creu record newydd, diweddaru cyfeiriadau, ac ati, wedi diflannu wrth gyflwyno'r system i-Connect dwy flynedd yn ôl. Mae'r dyletswyddau sydd ar ôl wedi'u cymhlethu yn sylweddol wrth i'r cynllun newid, e.e. cyfrifo trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r gronfa, uno cofnodion sawl cyfnod o wasanaeth pensiynadwy, a chyfrifo buddion marwolaeth. Mae angen dealltwriaeth ddwys o reoliadau cymhleth y gronfa bensiwn i gyflawni'r gwaith yma, ac nid yw'r raddfa GS3 yn gyflog teg i ymgymryd â'r gwaith erbyn hyn.

5. Rwy'n cynnig ein bod yn cynyddu cyflog y swyddi yma o raddfa GS3 (amrediad cyflog £19,312 - £19,698) i raddfa GS4 (£20,092 - £21,748).

6. Wedi ychwanegu argostau'r cyflogwr, buasai hyn yn gynnydd o £2,799 ar gyfer bob swydd, ar uchafbwynt y raddfa.

7. Mae yna 6 swydd Cymhorthydd Pensiynau. Felly, cyfanswm cost cynyddu cyflog y swyddi yma fuasai **£16,794** y flwyddyn.

**Swyddog Pensiynau Ychwanegol**

8. Yn 2021, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy wedi cyflwyno opsiwn deniadol ar gyfer Cyfraniadau Gwirfoddol Aberthu Cyflog ('AVCs'). Drwy gyflwyno'r opsiwn yma, mae staff yn derbyn rhyddhad o dreth incwm ac yswiriant cenedlaethol ar y cyfraniadau ychwanegol, ac mae'r cyflogwr yn derbyn rhyddhad ar y taliadau yswiriant cenedlaethol.

9. Rhagwelir cynnydd mawr mewn defnydd o'r cynllun yma, wrth i'r Cynghorau hyrwyddo'r cynllun. Mae cynhyrchu gwybodaeth a prosesu ymddeoliadau yn cymryd llawer mwy o amser ar gyfer staff sydd yn talu'r cyfraniadau ychwanegol. Felly, rydym angen adnoddau ychwanegol i ddelio gyda'r cynnydd yn y gwaith yma.

10. Rwy'n cynnig ein bod yn cyflogi un Swyddog Pensiynau newydd i ymgymryd â'r gwaith ychwanegol. Mae'r swyddogion sydd yn ymgymryd â'r dyletswyddau yma ar raddfa S2 (£24,982 - £27,041). Wedi ychwanegu argostau'r cyflogwr, ar uchafbwynt y raddfa, cost ariannu'r swydd newydd yw **£35,704**.

11. Gyda chydweithrediad y Gronfa Bensiwn, mae Cyngor Gwynedd eisoes yn arbed £43,500 y flwyddyn drwy dalu llai o yswiriant cenedlaethol. Wrth i'r Cyngor hyrwyddo'r cynllun i staff y Cyngor, bydd yr arbediad yswiriant cenedlaethol yn cynyddu'n sylweddol yn y tymor canol.

12. Mae cyflogwyr mawr eraill y gronfa mewn trafodaethau i gyflwyno'r opsiwn Cyfraniadau Gwirfoddol Aberthu Cyflog ('AVCs') yma hefyd, ac mi fydd hyn yn ychwanegu at lwyth gwaith gweinyddu'r Gronfa (yn arbennig wrth brosesu ymddeoliadau) tra'n gwireddu arbedion i'r cyflogwyr perthnasol.

**Prosiect McCloud**

13. Pan ddiwygiodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn 2014 a 2015, fe wnaethant gyflwyno amddiffyniadau ar gyfer aelodau hŷn. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod aelodau iau o gynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân wedi dioddef o wahaniaethu, oherwydd nad oedd yr amddiffyniadau yn berthnasol iddynt.

14. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd newidiadau i bob prif gynllun sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, i gael gwared ar y gwahaniaethu ar sail oedran. Yn aml, gelwir y dyfarniad hwn yn 'ddyfarniad McCloud' ar ôl yr aelod o Gynllun Pensiwn y Barnwyr apeliodd yr achos.

15. Mae gweithredu'r datrysiad o ymrwymiadau McCloud yn golygu y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth am yr oriau a weithiwyd, a manylion toriadau mewn gwasanaeth ar gyfer yr holl weithwyr cymwys sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2022.

16. Ers i'r cynllun newid yn 2014, nid ydym wedi ei wneud yn ofynnol i gyflogwyr ddarparu'r wybodaeth hyn. Fodd bynnag, rŵan bydd angen i ni gasglu'r wybodaeth hyn yn dyddio'n ôl i 1 Ebrill 2014.

17. Bydd cyflogwyr y Gronfa yn darparu'r wybodaeth yma i ni, ond bydd angen mewnbynnu'r holl wybodaeth gyda llaw, gan nad yw'r meddalwedd sydd wedi ei ddatblygu hyd yn hyn yn ddigon dibynadwy i gyflawni'r pwrpas gyda digon o sicrwydd.

18. Ar gyfer Cyngor Gwynedd, mae'n rhaid i ni gyfrifo'r oriau a diweddaru'r cofnodion ein hunain. Fel y cyflogwr mwyaf yn y gronfa, mae hyn yn waith sylweddol sydd angen ei gwblhau.

19. Yn ogystal â diweddaru'r cofnodion, hefyd bydd angen i ni ail-gyfrifo'r buddion marwolaeth, y buddion ymddeoliad, a'r buddion gohiriedig o'r aelodau sydd wedi gadael yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf. Bydd hyn yn golygu ail-edrych ar ffeithiau ac ail gyfrifo miloedd o gofnodion aelodau.

20. Er bydd y prosiect McCloud yn waith sylweddol i'r Uned, mae'n debyg mai dim ond nifer fechan iawn o aelodau fydd yn gweld cynnydd yng ngwerth eu buddion ar ddiwedd y prosiect.

21. Ni fuasai'n bosib i'r Uned gyflawni'r gwaith hwn yn ogystal â parhau gyda'r gwaith o ddydd i ddydd. Ymhellach i ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, rydym yn argymell dylid cyflogi 3 Chymhorthydd Pensiynau ychwanegol dros dro am gyfnod o 2 flynedd (gyda phosibilrwydd o estyniad os bydd y gwaith yn parhau heibio 2 flynedd) er mwyn ymgymryd â'r gwaith ychwanegol. Yn unol â'r lefel cyflog nodwyd yn paragraffau 5-7 uchod, byddai'r staff yma ar raddfa gyflog GS4 (£20,092 - £21,748).

22. Wedi ychwanegu argostau'r cyflogwr, cost ariannu'r 3 swydd newydd dros dro fyddai **£85,431** y flwyddyn.

23. Mae yna nifer o gronfeydd pensiwn eraill tebyg i ni o ran maint wedi comisiynu cwmnïau allanol i ymgymryd â'r gwaith hwn, ac mae yna gost sylweddol iawn iddynt wrth ddewis yr opsiwn hwnnw. Rydym yn argyhoeddedig bod cadw'r gwaith yma'n fewnol am isafu'r gost i'r gronfa.

**<u>Ymhlygiadau Ariannol yr Adnoddau Angenrheidiol</u>**

24. Mae'r costau arfaethedig fel a ganlyn, yn cynnwys argostau'r cyflogwr (yswiriant cenedlaethol a chyfraniadau pensiwn).

25. Creu 4 swydd newydd fel a ganlyn: -

| **Manylion y swydd** | **Graddfa arfaethedig** | **Tâl blynyddol llawn amser** | **Argostau'r cyflogwr** |
|---|---|---|---|
| 1 Swyddog Pensiynau | S2 | £27,041 | £8,663 |
| 3 Cymhorthydd Pensiynau (£21,748) (Cytundeb 2 flynedd) | GS4 | £21,748 x 3 = £65,244 | £6,729 x 3 = £20,187 |
| | Cyfanswm blynyddol | | £121,135 |

26. Cynyddu cyflog y 6 Cymorthyddion Pensiynau o GS3 i GS4 fel a ganlyn: -

| **Manylion y swydd** | **Graddfa arfaethedig** | **Tâl blynyddol llawn amser** | **Argostau'r cyflogwr** |
|---|---|---|---|
| 6 Cymhorthydd Pensiynau | GS4 | £2,050 x 6 = £12,300 | £749 x 6 = £4,494 |
| | Cyfanswm blynyddol | | £16,794 |

27. Cyfanswm cost yr adnoddau ychwanegol fuasai **£137,929**, gydag **£85,431** ohono yn gynnydd dros dro ar gyfer y prosiect McCloud. Hefyd, fel y nodwyd yn rhan 11 a 12 uchod, mi fydd prif gyflogwyr y Gronfa yn gwireddu arbedion sylweddol wrth leihau cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol gyda'r cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Aberthu Cyflog – arbedion llawer mwy na chost ariannu'r swydd Swyddog Pensiynau. Felly, wrth ystyried cyllidebau'r cyflogwyr a chyllideb y Gronfa Bensiwn gyda'u gilydd, yn y tymor hir does dim cynnydd yn y gyllideb net.

**Argymhelliad**

28. **Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cynnydd £137,929 mewn gwariant ar staff yr Uned Bensiynau erbyn 2022/23**.